



# Crynodeb o'r Cod Ymarfer a'r Rheoliadau ar gyfer Rhan 11 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014



## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014



Mae'r Ddeddf hon am ddyfodol gofal cymdeithasol yng Nghymru.



Mae fersiwn Hawdd ei Darllen o'r Ddeddf ar wefan Llywodraeth Cymru.



Mae angen i bawb yng Nghymru wybod sut i wneud beth mae'r Ddeddf yn dweud.



Mae hyn yn golygu bod angen **Rheoliadau** a **Chod Ymarfer** ar y Ddeddf.


Rheolau yw'r **Rheoliadau**. Mae'r rheolau'n dweud beth sy'n **rhaid** gwneud.



Mae'r **Cod Ymarfer** yn disgrifio sut beth fydd gofal cymdeithasol. Mae rhai pethau yn y **Cod Ymarfer** yn gyngor da. Mae rhai pethau yn y **Cod Ymarfer** yn bethau y mae'n **rhaid** eu gwneud.



Mae'r Ddeddf yn dechrau yn Ebrill 2016.



## Ysgrifennu'r Rheoliadau a'r Cod Ymarfer



Rydyn ni wedi gofyn i lawer o bobl beth ddylen ni ei roi yn y **Rheoliadau** a'r **Cod Ymarfer**.



Rydyn ni wedi ysgrifennu peth o'r **Rheoliadau** a'r **Cod Ymarfer**.

Nawr rydyn ni eisiau gwybod beth ydych chi'n meddwl.

## 2 Chwefror

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthon ni beth ydych chi'n meddwl erbyn 2 Chwefror 2015.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Byddwn ni'n edrych ar y pethau rydych yn dweud wrthon ni.




Yna byddwn yn mynd â'r **Rheoliadau** i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mai 2015.



Byddwn yn gofyn iddyn nhw gytuno i'r **Rheoliadau**.



Yna bydd gan bawb tan Ebrill 2016 i baratoi i wneud beth mae'r **Rheoliadau** yn dweud.



Rydyn ni dal yn ysgrifennu peth o'r **Rheoliadau** a'r **Cod Ymarfer** am rannau eraill o'r Ddeddf.



Byddwn yn gofyn i chi am y rhain ym Mai 2015.



Rydyn ni wedi ysgrifennu 2 set o **Reoliadau** i weithio allan:



- pa gyngor lleol fydd yn gyfrifol am eich gofal a'ch cefnogaeth os ewch chi i mewn i gartref gofal



- beth fydd yn digwydd os bydd dau gyngor yn anghytuno am hyn



Rydyn ni wedi ysgrifennu **Cod Ymarfer** ar gyfer popeth yn Rhan 11 y Ddeddf.



Maen nhw ar wefan Llywodraeth Cymru.



Rydyn ni eisiau gwybod beth ydych chi'n meddwl.



## Oedolion a Phlant yn y carchar, dalfa ieuencid neu lety mechniaeth



Nid ydyn ni wedi ysgrifennu unrhyw **Reoliadau** am hyn.



Rydyn ni wedi ysgrifennu am y pethau hyn yn y **Cod Ymarfer**.

Mae'r **Cod Ymarfer** yn dweud:



- sut i gwrdd ag anghenion gofal a chefnogaeth pobl pan maen nhw yn y carchar, dalfa ieuencid neu lety mechniaeth



- sut i fod yn barod i gwrdd ag anghenion y bobl hyn pan fyddan nhw'n symud nôl i'r gymuned




Mae'r Ddeddf hon yn berthnasol i:



- Oedolion yng Nghymru;



- Plant Cymreig yng Nghymru neu Loegr



- Rhai plant Seisnig yng Nghymru



Mae'r Ddeddf i gyd yn berthnasol i bobl yn y carchar, dalfa ieuencid neu lety mechnïaeth, **ond**:



- **dydych** chi **ddim** yn gallu bod yn ofalwr



- **dydych** chi **ddim** yn gallu cael taliadau uniongyrchol



- **dydych** chi **ddim** yn gallu dewis lle i fyw



- **nid oes rhaid** i'r cyngor lleol **edrych** ar ôl eich eiddo





## Lle rydych yn byw fel arfer



Rydyn ni wedi ysgrifennu 2 set o **Reoliadau** a **Chod Ymarfer** am hyn.

Os oes anghenion gofal a chefnogaeth gyda chi, mae'n rhaid i'r cyngor lleol lle rydych chi'n byw fel arfer gwrdd â nhw



Mae'n rhaid i'r cyngor lleol gwrdd â'ch anghenion o hyd os ydych chi'n mynd i mewn i gartref gofal mewn ardal arall.



Bydd y **Cod Ymarfer** yn helpu cynghorau lleol i weithio allan:



- os yw rhywun fel arfer yn byw yn eu hardal nhw



- sut i ddatrys cwmpo allan rhwng cynghorau lleol am lle mae rhywun yn byw fel arfer



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

- pryd i gysylltu â Gweinidogion Cymru



Ar hyn o bryd, mae'r rheolau'n berthnasol i'ch cartref chi eich hun a chartrefi gofal yn unig.



Mae **Rheoliadau** wedi'u hysgrifennu gyda ni ar gyfer cartrefi gofal a lleoliadau i oedolion (sy'n cael eu galw hefyd yn gynlluniau 'Rhannu Bywydau').



Rydyn ni eisiau gwybod a ydych chi'n credu y dylai'r **Rheoliadau** gynnwys gwasanaethau eraill hefyd.



Rydyn ni hefyd wedi ysgrifennu **Rheoliadau** am beth fydd yn digwydd os dydy cynghorau lleol ddim yn gallu cytuno pwy ddylai helpu rhywun.